

Diweddariad i'r ymgynghoriad hwn (rhan 2)

TA5 1UD, NNB Generation Company (HPC) Limited: ymgynghoriad hawlen amgylcheddol

Nod yr ymgynghoriad hwn yw gofyn a oes gennych unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i'r cais hwn am hawlen.

Rydym eisiau gwneud y penderfyniad gorau wrth ganiatáu. Mae gwrandio ar farnau eraill yn ein helpu ni i ystyried pryderon, neu ffactorau amgylcheddol lleol, na fyddem fel arall yn ymwybodol ohonynt.

Ym mis Mawrth 2019 derbyniwyd cais i amrywio hawlen amgylcheddol gyfredol gan NNB Generation Company (HPC) yng ngorsaf bŵer niwclear Hinkley Point C, gan nad yw'r cwmni bellach eisiau cynnwys Ataliad Pysgod Acwstig (AFD) fel rhan o'u system mewnlif dŵr oeri.

Roedd y cais a'r dogfennau ategol ar gael yn Citizen Space a dechreuwyd derbyn sylwadau o'r 15 Mawrth 2019.

Ym mis Mai 2019 roedd nifer o adroddiadau ychwanegol ac wedi'u diweddarw wedi'u cyflwyno gan y cwmni ers dechrau'r ymgynghoriad, i aelodau'r cyhoedd eu gweld a chynnig sylwadau arnynt.

Fe wnaethom ofyn yn ffurfiol i'r cwmni hefyd roi'r adroddiad ychwanegol a ganlyn i ni erbyn 24 Mai 2019, y cyfeiriwyd ato yn eu cais, er mwyn i ni allu pennu eu cais amrywiad i hawlen:

- TR493; Effaith peidio gosod system AFD yn HPC ar weithrediad y systemau FRR HPC, Cefas (2019b).

Nid ydym wedi derbyn yr adroddiad hwn hyd yma - mae'r cwmni yn dal i'w baratoi. Mae'n anelu at ddarparu gwybodaeth ar effaith tynnu'r Ataliad Pysgod Acwstig (o'r cynllun Derbyn Dŵr Oeri) i'r system Adfer a Dychwelyd Pysgod (FRR).

Er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd amser i gynnig sylwadau ar yr adroddiad ychwanegol hwn byddwn yn ymestyn y cyfnod ymgynghori am 4 wythnos arall o ddyddiad derbyn yr adroddiad hwn.

Diweddariad

Mae'r cwmni bellach wedi gofyn am fwy o amser i baratoi a chyflwyno'r adroddiad ychwanegol hwn. Y terfyn amser i'r cwmni gyflwyno'r adroddiad ychwanegol hwn i ni erbyn hyn yw 28 Mehefin 2019. Gan hynny rydym wedi ymestyn ein cyfnod ymgynghori i 4 wythnos ar ôl y dyddiad hwn, i 26 Gorffennaf 2019.

Bydd yr adroddiad ychwanegol hwn ar gael i'w weld ar-lein o fewn Citizen Space cyn gynted ag y bydd wedi'i gyflwyno.

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn diwedd 26 Gorffennaf 2019.

Sut y gallaf i gael gwybodaeth bellach?

Cyfeiriwch unrhyw gwestiynau am y cais am hawlen hwn at psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

Am wybodaeth gyffredinol am ein proses ganiatáu gweler www.gov.uk/topic/environmental-management/environmental-permits

Am wybodaeth bellach am ein rôl wrth reoleiddio Hinkley Point gweler <https://www.gov.uk/government/collections/hinkley-point>

Sut i ymateb:

Os dymunwch gynnig sylwadau ar-lein, defnyddiwch yr offeryn ymgynghori ar-lein yng Ngofod y Bobl.

Os hoffech chi anfon eich ymateb trwy'r post, anfonwch at:

Environment Agency
Permitting and Support Centre
Water Quality Team
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Sheffield
S9 4WF.

Ond os byddai'n well gennych gyflwyno'ch ymateb trwy e-bost, neu os hoffech chi ofyn i fersiwn print o'r ddogfen gael ei phostio atoch chi, cysylltwch â'r Ganolfan Ganiatáu a Chefnogaeth ar 03708 506 506, neu e-bost psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

Rhaid cyflwyno'r holl sylwadau erbyn diwedd 26 Gorffennaf 2019.

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth:

Bydd yr holl sylwadau a fydd ar gael i'r cyhoedd yn ymddangos ar Citizen Space - ni fydd yr ymatebion yn cynnwys cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn. Ni fydd unrhyw sylwadau lle y mae cyfrinachedd wedi'i hawlio yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus. Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngwrdd gallwch hefyd weld ein cofrestr gyhoeddus yn ein swyddfeydd yn Bridgwater yn Rivers House, East Quay, Bridgwater, TA6 4YS. Bydd angen i chi wneud apwyntiad yn ystod oriau gwaith i wneud hyn trwy ffonio 03708 506 506.

Yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'n bosibl y bydd gofyn i ni gyhoeddi'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ond ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os ydych chi wedi gofyn i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, mae'n bosibl y bydd gofyn i ni gyflwyno crynodeb ohono.

Egwyddorion yr Ymgynghoriad:

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn [Egwyddorion Ymgynghori](#) y llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch ag:

Environment Agency
Permitting and Support Centre
Water Quality Team
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Sheffield
S9 4WF.

E-bost: psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

customer service line
03708 506 506

incident hotline
0800 80 70 60

floodline
0345 988 1188